# Pwyllgor Rhanbarthol Gorllewin De Cymru Cofnodion

## (SWaWR (2)-03-06)

### Dyddiad: Dydd Gwener 20 Hydref 2006
### Amser: 9:30am i 12:30pm
### Lleoliad: Canolfan Dylan Thomas, Abertawe, Ystafell Gynadledda 1

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Brian Gibbons | Aberafon |
| Janice Gregory (Cadeirydd) | Ogwr |
| Edwina Hart | Gwyr |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |

Wrth Law

| **Enw** | **Yn cynrychioli (os yn berthnasol)** |
|---|---|
| Mr Kevin Gibbs | Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant |
| Ms Kerry Robinson | Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel |
| Ms Allyson Fisher | Cymorth i Fenywod Castell-nedd |
| Ms Lynne Sanders | Cymorth i Fenywod Abertawe |
| Mrs Pamela Harding | Cymorth i Ddioddefwyr De Cymru |
| Mr Jon Trew | Cymorth i Ddioddefwyr De Cymru |

#### Gwasanaeth y Pwyllgorau wrth Law

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc Pwyllgor |
| Sara Mansour | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:**

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Val Lloyd | Gorllewin Abertawe |
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |

### Eitem 1: Croeso a chyflwyniad.

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### Eitem 2: Cam-drin yn y Cartref

2.1 Rhoddodd Mr Kevin Gibbs gyflwyniad am gam-drin yn y cartref ar ran y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant. Gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- Mae strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwysig o ran cymryd cam-drin yn y cartref o ddifrif yng Nghymru.
- Mae'r strategaeth wedi codi ymwybyddiaeth y dylid rhoi sylw i'r effaith ar blant wrth ddelio ? ham-drin yn y cartref.
- Mae'r NSPCC wedi bod yn rhan o ddatblygu a gweithredu'r strategaeth.
- Mae strategaeth yn gychwyn da, ond yr hyn sy'n allweddol i wneud gwahaniaeth yw datblygu mentrau a rhaglenni effeithiol i atal y math yma o gam-drin. Y rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu cam-drin yw merched beichiog a phlant dan ddwy oed.
- Rhaid cael cyswllt clir rhwng maes cyfiawnder troseddol a maes amddiffyn plant.
- Yn ddiweddar sefydlwyd Byrddau Lleol Diogelu Plant, sy'n cynnig posibiliadau o ran mynd i'r afael ?ham-drin yn y cartref trwy gydweithio gyda'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, ond mae rhai rhwystrau yn aros fel na ellir gwneud hyn ym mhobman.
- Mae datblygu Partneriaethau Diogelu Cymunedol, gyda'u cyfrifoldeb am waith yn ymwneud ?

ham-drin yn y cartref, yn fuddiol. Serch hynny, mae'r her i fynd i'r afael ?ham-drin yn y cartref yn rhan o bortffolio mawr a chymhleth o gyfrifoldebau sy'n canolbwyntio mwy ar gyfiawnder troseddol nag ar amddiffyn plant, yn dal i fodoli.

- Mae'r Fforymau Cam-drin yn y Cartref wedi annog gwaith aml-asiantaeth a thraws-faes, ond mae rhai problemau'n aros mewn perthyna ?hyfrifoldeb ac adnoddau i sicrhau canlyniadau.
- Yr NSPCC oedd y cyntaf i ddarparu rhaglenni systematig mewn perthynas ?ham-drin yn y Cartref yng Nghymru ym1996 pan ddechreuwyd gwneud gwaith gyda phlant, eu mamau a'r dynion oedd yn achosi risg i'w teuluoedd.
- Yr un yw r?r NSPCC o hyd, sef datblygu, hyrwyddo a darparu arferion da mewn perthynas ?ham-drin yn y cartref.
- Mae'r NSPCC wedi treialu'r rhaglen Caring Dad a gychwynnwyd yng Nghanada. Bydd y rhaglen yn gweithio gyda dynion sy'n achosi risg i blant ond sydd eisiau newid eu hymddygiad tuag atynt. Nid oes unrhyw raglen arall yng Nghymru sy'n ceisio gweithio gyda dynion fel tadau yn bennaf. Mae'r rhaglen yn 13 o sesiynau wythnosol. Mae'r rhaglen wedi cael ei gweithredu gan yr NSPCC ym Mro Morgannwg mewn cydweithrediad ? Cychwyn Cadarn, ac yn Sir Fynwy hefyd. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol, a llwyddodd pob un o'r dynion i gwblhau'r rhaglen, gyda rhai ohonynt yn teithio o Abertawe i Sir Fynwy. Bydd y rhaglen nesaf yn cychwyn ym mis Tachwedd.
- Mae'n hanfodol bod y cylch cam-drin yn y cartref yn cael ei dorri. Dangosodd astudiaeth ddiweddar o 2000 o bobl ifanc yn eu harddegau gan y cylchgrawn Sugar a'r NSPCC fod:

1. un o bob pump merch wedi cael ei tharo gan ei chariad;
2. un rhan o dair yn dweud y gellid cyfiawnhau trais os oedd rhywun yn twyllo cariad; a bod
3. 33 y cant wedi dioddef cam-drin yn y cartref.

- Rhaid cael darpariaeth gyson trwy Gymru gyfan gyda'r gwaith hwn o roi grym i ddioddefwyr, galluogi gofalwyr, a herio'r rhai sy'n cam-drin.
- Mae gwaith yr NSPCC yng Ngwent, Gogledd Cymru a De Cymru wedi arwain at sefydlu grwpiau effeithiol o blant a mamau. Mae'r NSPCC yn awyddus i ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau tebyg yn Ne Cymru yn seiliedig ar ddull aml-asiantaeth o weithredu, fel rhan o'r ymrwymiad i atal cam-drin ledled Cymru gyfan.
- Mae'r NSPCC wedi darparu gwasanaethau hyfforddi ac ymgynghori wrth weithio ledled De Orllewin Cymru, ac mae ganddynt ddiddordeb mewn gweithio gydag eraill i ddarparu gwasanaethau perthnasol a hygyrch ym mhob rhan o Gymru.
- Yr oedd Mr Gibbs wedi cymryd rhan mewn wyth adolygiad achos difrifol yn ymwneud ? phlant dros y 18 mis diwethaf yng Nghymru a Lloegr. Mewn saith o'r wyth achos gwyddid yn barod bod trais yn y cartref yn broblem yn y teuluoedd ac roedd yn ymddangos bod cysylltiad rhwng hyn a'r niwed a achoswyd i'r plant.

2.2 Rhoddodd Ms Kerry Robinson gyflwyniad ar ran Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel. Gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- Mae Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel yn gyrru'r Strategaeth Cymru Gyfan yn ei flaen, yn wyneb anghenion lleol. Mae'n rhaid cael adnoddau ychwanegol i weithredu'r Strategaeth ac i gyflawni amcanion y partneriaethau diogelwch cymunedol.
- Mae cam-drin yn y cartref yn costio ?23 biliwn y flwyddyn ac mae dioddefwyr a goroeswyr

yn gyfrifol am dri chwarter y gost – sef merched, plant, dynion a phobl sy’n agored i niwed.

- Mae cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn wynebu mwy o risg. Mae’r nifer sy’n riportio cam-drin yn y cartref mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn eithriadol o isel.
- Mae croeso arbennig i’r swydd ar secondiad a ariannir gan y Cynulliad i roi sylw i broblemau priodasau sydd wedi eu gorfodi. Dylai’r adnodd yma fod ar gael yn barhaol.
- Mae Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel wedi sefydlu grwp cynllunio traws ranbarthol dan gadeiryddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Dinas a Sir Abertawe. Mae’n cynnwys asiantaethau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig arbenigol fel Black Association of Women Step Out Ltd Wales (BASOW) a Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig Ethnic Cymru (MEWN) i gyflwyno Cynhadledd Cam-drin yn y Cartref Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau ym mis Medi 2007. Bydd y gynhadledd yn agored i gynrychiolwyr o bob rhan o Gymru. Bydd angen adnoddau ychwanegol i gyflwyno’r digwyddiad a’r cynllun gweithredu tymor hirach a fydd, gobeithio, yn deillio ohono.
- Mae Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel wedi datblygu Strategaeth Cam-drin yn y Cartref Abertawe 2006 – 2008 ac wedi dechrau ei gweithredu mewn ymateb i’r Strategaeth Cymru Gyfan. Bydd yn cael ei lansio yng Nghanolfan Dylan Thomas ar 17 Tachwedd.
- Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi llunio’r polisi corfforaethol Strategaeth Cam-drin yn y Cartref Abertawe, gydag ymrwymiad i "gymryd yr awenau yn awdurdodau lleol Cymru i atal a dileu ymddygiad o’r fath sy’n bygwth bywydau; i benderfynu ac ystyried y ddarpariaeth gyllidol angenrheidiol yn y blynyddoedd nesaf a’r blynyddoedd dilynol".
- Mae Strategaeth Cam-drin yn y Cartref Abertawe yn nodi yr amcangyfrifir bod 17,120 o ferched a 10,773 o ddynion yn Abertawe wedi dioddef camdriniaeth, bygythiad neu orfodaeth ers pan oeddent yn 16 oed.
- Trwy’r wlad i gyd, mewn 90 y cant o’r digwyddiadau sy’n cael eu riportio i’r heddlu, bydd plentyn wedi bod yn yr ystafell neu mewn ystafell gyfagos.
- Mae camddefnyddio sylweddau yn ffactor sy’n gwaethygu’r sefyllfa mewn oddeutu 50 y cant o’r digwyddiadau sy’n cael eu riportio.
- Yn Abertawe, mae tasgluoedd aml-asiantaeth yn dilyn thema benodol, sy’n cynnwys atal, amddiffyn a chefnogi, atebolrwydd y sawl sy’n cyflawni trosedd, llety a chymorth. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i weithredu Cynllun Gweithredu Strategaeth Cam-drin yn y Cartref Abertawe, o dan gwmpas Fforwm Cam-drin Domestig Abertawe sydd wedi ei sefydlu ers tro.
- Un o lwyddiannau cynnar Abertawe oedd cael cyllid y Swyddfa Gartref ar gyfer Llys Trais yn y Cartref Arbenigol ac ar gyfer Eiriolwyr Trais yn y Cartref Annibynnol. Bydd hyn yn help i gau’r bwlch rhwng gwaith ardderchog yr heddlu a’r cyfraddau isel o erlyn y rhai sy’n cyflawni cam-drin yn y cartref.
- Mae staff yn wynebu llawer o heriau a manteision wrth fynd ?waith rhagddo i ddelio ? cham-drin yn y cartref. Ond rhaid peidio ?adael i’r Strategaeth eistedd ar y silff. Mae monitro yn rhan bwysig o gyflawni. Mae Is-grwp Monitro Strategaeth yn gosod dangosyddion perfformiad, yn sicrhau gweithredu, yn monitro cydraddoldeb ac yn adrodd yn ? Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel. Mae’n ystyried ymgynghoriad ar effaith y Strategaeth gyda grwpiau ffocws o oroeswyr cam-drin yn y cartref.
- Mae asiantaethau statudol a gwirfoddol yn Abertawe yn cynnal deialog parhaus gyda goroeswyr trwy gyfrwng Is-Grwp Goroeswyr sy’n rhan o Fforwm Cam-drin Domestig Abertawe.

2.3 Gwnaed y pwyntiau canlynol gan Edwina Hart AC:

Cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol i’r strategaeth. Mae cam-drin yn y cartref yn drosedd a dylid delio ? 146;r drosedd trwy’r System Cyfiawnder Troseddol. Yn ogystal ?hrais corfforol, gall cam-drin yn y cartref gynnwys rheoli’r dioddefwr, er enghraifft trwy ddal arian yn ?Mae lles y dioddefwr yn hollbwysig, ond mae pryder ynglyn ?ut y rhennir gwybodaeth rhwng pob un o’r gwahanol sefydliadau. Gofynnodd sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru helpu i lenwi’r bylchau.

2.4 Wedyn bu’r cyflwynwyr yn ymateb i gwestiynau’r Aelodau.

Kevin Gibbs:

- Pan fo’r heddlu yn gysylltiedig cedwir cofnod cynhwysfawr o’r digwyddiad.
- Mae plant yn treulio llawer o’u hamser yn yr ysgol, ac mae’n rhaid i athrawon adnabod y gwahanol arwyddion o gamdriniaeth, hynny yw cleisiau neu flinder pan fo plentyn wedi colli cwsg er mwyn cadw’r heddwch rhwng y rhieni. Mae gan bob ysgol athro amddiffyn plant, ond mae angen rhagor o gymorth arnynt yn eu r?Mae hyfforddiant aml-asiantaeth ar gael ond mae angen rhagor o gyllid.
- Mae’n ofynnol yn awr i bob awdurdod lleol sefydlu Bwrdd Lleol Diogelu Plant.
- Mae’r Strategaeth yn gychwyn cadarnhaol sy’n dynodi plant fel rhai sy’n dioddef camdriniaeth yn uniongyrchol. Yr her yw cysoni pwerau datganoledig a phwerau sydd heb eu datganoli megis cyfiawnder troseddol.
- Yn ogystal ?weld cam-drin rhwng oedolion, gall plant gael eu brifo’n gorfforol wrth iddynt ddigwydd sefyll wrth ymyl. Mae hyfforddiant Heddlu De Cymru ar achosion cam-drin yn y cartref yn cynnwys amddiffyn plant.
- Mae’n rhaid dysgu gwersi o lofruddiaethau Soham fel bod cyfrinachedd yn eilbeth i amddiffyn plant.
- Gall cam-drin yn y cartref effeithio ar unrhyw un, gan gynnwys dynion mewn perthynas heterorywiol neu berthynas hoyw. Dangosodd astudiaeth achos yn yr Alban yn 2002, bod 6-7 y cant o achosion cam-drin domestig yn cynnwys dioddefwyr sy’n ddynion.
- Mae nifer o gyflogwyr mawr ac undebau yn datblygu polis? i helpu dioddefwyr a’r bobl sydd yn cam-drin.

Kerry Robinson:

- Dylai ysgolion cynradd ac uwchradd gael canllawiau ynglyn ?heoli risg. Mae’n rhaid i ysgolion weithredu os ydynt yn amau camdriniaeth, heb ofni ?ffeithiau.
- Mae awdurdodau lleol yn annog meddygon teulu i roi gwybod am achosion lle mae cam-drin yn cael ei amau
- Mae cydweithio yn cael ei ddatblygu yn awr yn Abertawe rhwng yr adran ddamweiniau ac achosion brys.
- Hefyd mae sefydliadau yn darparu tai hirdymor i ferched a’u plant sydd wedi gorfod gadael cartref er mwyn dianc rhag cael eu cam-drin.
- Rhennir gwybodaeth rhwng y sefydliadau statudol a gwirfoddol yn Abertawe trwy gyfarfodydd bob pythefnos. Mae’r Fforwm Trais Domestig yn codi ymwybyddiaeth trwy grwp dan arweiniad nyrs amddiffyn plant Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Abertawe.

- Nid yw dynion mewn cymaint o risg o gael eu hanafu a marw, ond gallant ddioddef camdriniaeth a gall fod arnynt angen lloches. Mae prinder darpariaeth yn y rhanbarth. Mae lloches newydd i ddynion wedi agor yng Nghanolbarth Cymru. Yn Abertawe efallai bydd rhaid rhoi dynion mewn llety gwely a brecwast.
- Y ffactorau pwysig o ran delio ?hamdriniaeth yw codi ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth a materion cyfrinachedd.
- Mae gwaith ar y gweill gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol i hyfforddi nyrsys cymunedol i fod yn fwy effro i achosion posibl.
- Dangosodd ymgynghoriad a gynhaliwyd ym mis Chwefror yn Abertawe, bod pryder cynyddol am gam-drin pobl hyn.

2.5 Dywedodd Brian Gibbons AC:

- Bydd Mesur sy'n mynd trwy'r Ty Cyffredin ar hyn o bryd yn cryfhau i raddau helaeth y drefn o archwilio cefndir pobl sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl hyn.
- Yn gyffredinol bydd trychineb yn digwydd oherwydd diffyg cyfathrebu rhwng asiantaethau.
- Mae system integredig ar gyfer cofnodion plant yn cael ei dreialu yng Nghastell-nedd Port Talbot. Os oes pryder am blentyn bydd ei enw yn cael ei roi ar gronfa ddata y gall sefydliadau eraill gael mynediad ati, er na fydd manylion am yr hyn sy'n achosi pryder yn cael eu cynnwys.

2.6 Rhoddodd Lynne Sanders gyflwyniad ar ran Cymorth i Fenywod. Gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- Cymorth i Fenywod sy'n arwain o ran darparu gwasanaethau arbenigol i ferched a phlant sy'n dioddef cam-drin yn y cartref ac mae ganddynt dros 30 mlynedd o brofiad yn y maes hwn.
- Mae grwpiau Cymorth i Fenywod yng Nghymru yn darparu lloches. Ond nid yw'r llochesau yn cwrdd ag anghenion pob merch, er enghraifft merched gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol. Mae adborth oddi wrth ferched sy'n cael mynediad i'r gwasanaeth ac sy'n ddigartref yn dangos bod merched yn hoffi aros yn eu cartrefi eu hunain, lle bo'n bosib, cyn belled ag y gellir sefydlu mesurau diogelwch.
- Mae'r ddarpariaeth wedi cael ei hehangu yn Ninas a Sir Abertawe ac yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.
- Mae dau dy diogel yn Abertawe erbyn hyn sy'n cynnig llety i ferched a phlant sydd ddim yn gallu cael mynediad i'r ddarpariaeth lloches. Mae un teulu ym mhob un ohonynt ac mae ganddynt fesurau diogelwch tebyg i fesurau llochesau. Un o brif flaenoriaethau Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl Abertawe yw datblygu ail loches i gyflawni anghenion y sir.
- Mae Cymorth i Fenywod Castell-nedd, Dyffryn Lliw ac Abertawe wedi cynyddu eu darpariaeth allgymorth ac maent yn awr yn gallu cynnig cefnogaeth i ferched a phlant yn eu cartrefi eu hunain ar draws y siroedd. Mae'r cymorth a gynigir yn ymarferol ac yn emosiynol ac mae'n cynnwys asesu risg a chynllunio diogelwch.
- Yn genedlaethol, mae Cymorth i Fenywod Cymru yn rhedeg Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cenedlaethol. Bydd hwn yn datblygu i fod yn wasanaeth 24 awr yn y dyfodol agos a bydd yn cynnig mynediad i wybodaeth, cymorth a gwasanaethau sydd eu gwir angen ar hyd a lled Cymru. Hefyd, mae'r llinell gymorth yn cydgysylltu UK Refuges Online, sef y gronfa

ddata o wasanaethau cam-drin domestig ar draws y Deyrnas Unedig.

- Y ffordd allweddol i gynyddu diogelwch merched a phlant yw cael asiantaethau i weithredu'n gydgysylltiedig. Mae gan Cymorth i Fenywod yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe gysylltiadau cryf gyda'r fforymau aml-asiantaethol lleol, megis y fforymau cam-drin domestig, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a grwpiau datblygu strategaeth cam-drin domestig lleol.
- Yng Nghastell-nedd Port Talbot, Cymorth i Fenywod sy'n cadeirio'r Bartneriaeth Cam-drin Domestig, sy'n fforwm gweithredol. Cynhelir Cynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC) yn y ddwy sir ac mae Cymorth i Fenywod yn cymryd rhan weithredol. Mae protocolau rhannu gwybodaeth wedi cael eu sefydlu ac mae'n rhaid i gyfranogwyr ymuno ? hw.
- Mae'r Mesur Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2003 wedi gwella'r ffordd y mae'r heddlu yn ymateb i ddigwyddiadau cam-drin domestig. Ond mae llawer o waith i'w wneud eto. Mae pwysau'r dystiolaeth sydd ei hangen i fynd ag achosion rhagddynt yn ormod a gall oedi ddigwydd wrth ddelio ag achosion. Mae'n rhaid i ferched gael mynediad at fesurau amddiffyn cyfreithiol er mwyn gwella eu diogelwch ac i gynyddu atebolrwydd y sawl sy'n cyflawni cam-drin domestig. Mae newidiadau mewn cymorth cyfreithiol yn golygu ei bod yn gynyddol anoddach i ferched sydd ar incwm isel gael mynediad ato.
- Mae llys cam-drin domestig arbenigol yn gweithredu yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'n rhedeg am hanner diwrnod yr wythnos ar hyn o bryd ond gall ymestyn i ddiwrnod llawn. Mae Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr newydd lwyddo i gael cyllid ar gyfer llysoedd cam-drin domestig arbenigol. Mae'r Llysoedd hyn yn gwella'r gwaith o brosesu achosion cam-drin yn y cartref. Mae ganddynt ynadon sydd wedi cael eu hyfforddi'n arbennig ac maent yn cynnig gwasanaeth holistaidd i ddioddefwyr cam-drin domestig trwy ddarparu Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs). Yn Abertawe, mae'r IDVAs yn cael eu cyflogi gan Gymorth i Fenywod Abertawe a BAWSO, asiantaeth Cymorth i Fenywod Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Bu'r grwpiau Cymorth i Fenywod lleol yn cymryd rhan mewn Ymgyrchoedd Gorfodaeth Trais Domestig yn ystod gwanwyn 2006, gan ddarparu gwasanaeth eiriolaeth dros y ff?ac yn Abertawe, roedd aelod o'r staff yn yr adran ddamweiniau ac achosion brys ar rai diwrnodau arbennig. Y nod oedd cyrraedd at ddioddefwyr cam-drin yn y cartref a chynyddu'r erlyniadau yn erbyn y rhai sy'n gwneud y cam-drin trwy ymyrraeth a chefnogaeth gynnar.
- Bydd grwpiau Cymorth i Fenywod yn rhoi sgyrsiau yn rheolaidd i asiantaethau a grwpiau lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth am faterion cam-drin domestig. Gellir cynnig hyfforddiant ar arferion gorau a gwybodaeth am fewnbwn Cymorth i Fenywod i bolis? a gweithdrefnau sy'n rhoi sylw i gam-drin domestig.
- Yn lleol, mae Cymorth i Fenywod yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd Diwrnod Rhuban Gwyn sydd ?146;r bwriad o dynnu sylw at faterion cam-drin domestig a dangos mor gyffredin ydynt yn y gymdeithas sydd ohoni. Cynhelir sesiwn galw heibio bob wythnos yn ysbyty Castell-nedd Port Talbot i roi gwybodaeth a chefnogaeth i staff a goroeswyr cam-drin domestig.
- Nod Cymorth i Fenywod yw cefnogi a rhoi gwybodaeth i blant a phobl ifanc. Bu rhywfaint o gynnydd yn y maes hwn, ond yn y maes yma y bu'r lleiaf o welliant. O fewn Cymorth i Fenywod, mae cyllido gwaith plant yn parhau'n denau ac yn ansefydlog, er bod gwaith plant yn rhan hanfodol o'r hyn sy'n cael ei wneud mewn llochesau a gwasanaethau allgymorth. Mae'n cael ei gydnabod bod cam-drin domestig yn gallu cael effaith hirdymor ar blant ond

mae'r gwasanaethau yn parhau i fod yn brin ac yn anodd cyrraedd atynt oherwydd rhestrau aros.

- Mae nifer o faterion yn achosi pryder, gan gynnwys merched sydd ddim yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus. Mae nifer sylweddol o'r merched lleiafrifoedd ethnig hyn yn methu ?hael mynediad i lochesau gan na allant fforddio'r rhent neu am nad ydynt yn gallu cael mynediad i fudd-d?tai oherwydd eu statws fel mewnfudwyr.
- Mae'r Grant Refeniw Cefnogi Pobl (SPRG) yn ffactor cyllido arall sy'n peri pryder. Ar hyn o bryd mae'r cyllid yn cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ond mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i drosglwyddo gweinyddu SPRG i awdurdodau lleol yn 2008. Mae pryder a fydd yr awdurdodau lleol yn barod i'r trosglwyddiad.
- Mae cam-drin domestig yn cynnwys cam-drin corfforol, emosiynol, ariannol a rhywiol a gall effeithio'r dioddefwyr am flynyddoedd ar ?'r cam-drin ddod i ben. Er y bu cynnydd mewn gwasanaethau, mae'n dal i fod yn anodd i ferched a phlant gael mynediad at gwnsela a therapi. Mae gwasanaethau cam-drin rhywiol yn dal i fod yn brin r bod llawer o alw amdanynt. Mae'r ffocws ar hyn o bryd ar gam-drin corfforol ac asesu risg a chynllunio diogelwch. Mae hyn yn ardderchog, ond ni ddylid gwneud hyn ar draul mathau eraill o gam-drin y mae merched a phlant yn eu dioddef.
- Er mwyn rhoi sylw digonol i bob math o gam-drin domestig, mae'n hanfodol bod cyllid ar gael, fel y gellir gwneud gwelliannau ar draws y bwrdd.

2.7 Rhoddodd Jon Trew gyflwyniad ar ran Cymorth i Ddioddefwyr De Cymru. Gwnaed y pwyntiau canlynol ganddo:

- Mae 700 o wirfoddolwyr yn gweithio yn ardal De Orllewin Cymru. Mae 50 o'r rhain yn rhoi cymorth emosiynol ac ymarferol, seiliedig yn y gymuned, i ddioddefwyr. Mae 20 o wirfoddolwyr wedi eu lleoli mewn llysoedd yn y rhanbarth.
- Derbyniodd 63,665 o bobl gymorth gan Gymorth i Ddioddefwyr yn 2004-05. Mae 20,638 o dystion hefyd yn cael eu cefnogi gan Gymorth i Ddioddefwyr.
- Ers 1995 mae Cymorth i Ddioddefwyr yn cael ei lywodraethu gan safonau cenedlaethol gofynnol er mwyn cael cyllid y Swyddfa Gartref. Bydd cydymffurfio ?146;r safonau yn cael ei fesur gan arolygwyr ansawdd.
- Gall cam-drin yn y cartref gynnwys cam-drin corfforol, meddyliol ac ariannol rhwng partneriaid agos mewn sefyllfa ddomestig. Yn nodweddiadol, bydd sefyllfa yn gwaethygu dros gyfnod o amser. Mae priodasau sydd wedi eu gorfodi a lladd er anrhydedd yn fathau o gam-drin domestig.
- Mae mwy o ferched yn defnyddio'r gwasanaeth cymorth i ddefnyddwyr na dynion. Mae'n rhaid sylweddoli'r effaith a gaiff ar blant. Lle bo un rhiant yn cam-drin mae Cymorth i Ddefnyddwyr yn gweithio gyda'r rhiant sydd ddim yn cam-drin i helpu i leihau'r effaith ar y plant.
- Mae gwasanaethau Cymorth i Ddefnyddwyr yn gyfrinachol. Mae dioddefwyr yn cael gwybodaeth am gymorth cyfreithiol ac iawndal troseddol.
- Mae Cylchlythyr 34/01 y Swyddfa Gartref yn ei gwneud yn ofynnol i'r Heddlu roi gwybod i ddioddefwyr am wasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr.
- Cyflawnir gwasanaethau gan wirfoddolwyr sydd wedi cael eu hyfforddi ac sydd wedi cael eu gwirio gan yr heddlu.
- Ni all Cymorth i Ddefnyddwyr gwrdd ag anghenion pob dioddefwr a bydd rhai unigolion yn

cael eu cyfeirio at grwpiau eraill fel Cymorth i Fenywod.
- Bydd dioddefwyr yn cymryd rhan lawn mewn cynllunio diogelwch at y dyfodol.
- Mae diogelwch dioddefwyr yn holl bwysig ac mae'n rhaid ei gynnwys yn ysgrifenedig mewn Partneriaethau Gostwng Troseddau ac Anhrefn. Mae'r partneriaethau hyn yn gweithredu mewn ysgolion, ac yn tynnu sylw pobl ifanc at faterion cam-drin domestig. Mae rhaglen dreigl yn ardal De Cymru, gan gynnwys gweithdai diwrnod.
- Hefyd mae yna ymgyrch cyfathrebu strategol sy'n cael ei chroesawu'n fawr, ac sy'n codi ymwybyddiaeth trwy gyfrwng archfarchnadoedd, meddygfeydd a deintyddfeydd, unedau damweiniau ac achosion brys, llyfrgelloedd a lleoedd cyhoeddus eraill. Mae gan Abertawe ganolfan galw heibio ar gyfer achosion o drais ac ymosodiadau difrifol, sydd yn aml yn gysylltiedig ?ham-drin yn y cartref.
- Mae mesurau arbennig yn cael eu treialu yng Ngogledd Cymru i gadw tystion sy'n agored i niwed neu dystion y codwyd ofn arnynt ar wah?oddi wrth ddiffynyddion yn y llys. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys sgriniau a thystiolaeth trwy gyswllt fideo.

2.8 Mewn ymateb i gwestiynau oddi wrth Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol gan y cyflwynwyr:

Lynne Sanders

- Mae mwy o bobl yn awr yn dod ymlaen gydag achosion o gam-drin yn y cartref. Nid yw hyn yn golygu bod cam-drin domestig wedi cynyddu, ond bod pobl yn fwy ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt yn awr nad yr oedd pobl 20 mlynedd yn ?
- Mae cyffuriau ac alcohol yn ffactorau sy'n gwaethygu'r sefyllfa ond nid dyna'r prif achosion. Pwer a rheoli yw'r ffactorau sy'n gyrru cam-drin domestig.
- Nid yw Cymorth i Fenywod yn gwneud gwaith hyrwyddo gyda chyflogwyr, ond maent yn aml yn cydgysylltu gyda chyflogwyr merched sydd mewn llochesau er mwyn eu helpu i aros mewn gwaith.
- Mae Cymorth i Fenywod yn cael cyllid o nifer o wahanol ffynonellau - Yn Abertawe maent yn cael ?39,000 gan y Cyngor, sef ?10,000 o'r adran Dai a ?29,000 o'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Maent hefyd yn cael cyllid o'r Loteri Cenedlaethol a Phlant mewn Angen. Nid oes llawer o sicrwydd mewn perthynas ?hyllido, er enghraifft mae Bro Morgannwg yn bwriadu tynnu ?100,000 yn ?/li>
- Mae gan rai llochesi fynediad i'r anabl a gallant gael cefnogaeth ategol ar gyfer hyn. Ond mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth i bobl anabl yn ogystal ?hobl sydd efallai wedi cael eu cam-drin gan eu gofalwr. Mae cyllid ar gyfer dioddefwyr sy'n fewnfudwyr yn ystyriaeth arall sydd angen sylw.
- Nid oes unrhyw derfynau oed ac maent wedi cael dynes 84 oed mewn lloches.

Allyson Fisher

- Mae pobl yn llawer mwy parod i ddod ymlaen oherwydd bod ymateb yr heddlu wedi gwella.
- Mae'r llys trais domestig arbennig yng Nghastell-nedd yn helpu i gynyddu hyder pobl a gwaith aml-asiantaethol yn cynnig dull mwy cyson o weithredu.
- Mae rhannu gwybodaeth yn bwysig iawn ac mae pobl yn llawer mwy ymwybodol o'u hawliau erbyn hyn.

- Gall tai fod yn broblem gan nad yw llochesau yn ateb hirdymor. Ond mae yna brinder o stoc tai cymdeithasol addas ac yn aml mae landlordiaid yn cosbi'r dioddefwyr am ?dyledion rhent sydd wedi codi yn sgil perthynas treisgar.
- Yn aml mae'n anodd i ferched mewn llochesau gael mynediad at ofal meddygol ac mae gan lawer ohonynt broblemau cyffuriau, alcohol neu iechyd meddwl sy'n golygu eu bod angen cymorth.

Jon Trew

- Ni fu cynnydd mewn achosion o gam-drin yn y cartref, ond mae pobl yn fwy parod erbyn hyn i ddod ymlaen. Mae'n rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus y byddant yn cael eu trin gyda pharch.
- Yr oedd yr Athro Jonathan Shepherd wedi mapio'r achosion o gam-drin yn y cartref adeg prif ddigwyddiadau chwaraeon a gweld bod cysylltiad rhyngddynt. Cafodd hyn ei gadarnhau gan ymchwil a wnaed gan Heddlu De Cymru.
- Mae rhai ystyriaethau arbennig mewn perthynas ?iogelwch o ran rhoi gwybodaeth a chysylltu ?ioddefwyr fel nad ydynt yn wynebu risg pellach, er enghraifft, y sawl sy'n cam-drin yn agor llythyron y dioddefwr.
- Mae diogelwch staff Cymorth i Ddefnyddwyr yn bwysig iawn hefyd.

Pam Harding

- Os bu cynnydd mewn riportio achosion gall hyn fod oherwydd y mesurau arbennig sydd wedi cael eu cyflwyno yn y llysoedd.
- Mae gweithdrefnau clir i'w dilyn gyda phob math o ddulliau cyfathrebu fel llythyron, galwadau ff? chanolfannau galw heibio.
- Nid yw dioddefwyr trais yn cael eu cyfeirio gan yr heddlu os nad ydynt wedi rhoi eu caniat? penodol.
- Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn cymryd rhan yn y trafodaethau ynglyn ?hau rhai o'r llysoedd.

2.9 Dywedodd Edwina Hart AC bod

- Y Strategaeth Cam-drin yn y Cartref wedi rhoi'r hyder i bobl ddod ymlaen.
- Fel Gweinidog mae'n trafod dyfodol Grant Refeniw Cefnogi Pobl gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol, ond ar hyn o bryd nid yw'n gwrthwynebu cynnwys hyn yn y cyllid cefnogi refeniw. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awr yn rhoi cyllid i awdurdodau lleol ar sail tair blynedd ac felly mae'n deg disgwyl i awdurdodau lleol roi sicrwydd tebyg i'r sefydliadau yn y sector gwirfoddol y maent yn eu cefnogi. Mae cyllido'r sefydliadau hyn yn rhan fechan iawn o gyfanswm cyllideb awdurdodau lleol.
- Dylai landlordiaid roi llechen l?i ddioddefwyr sydd ag unrhyw ?dyledion rhent.
- Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gwahanol sy'n delio gyda'r un achos gael swyddogaethau a chyfrifoldebau clir.

2.10. Tynnwyd sylw gan un o'r cyhoedd at broblem alcoholiaeth a dywedodd o'i phrofiad hi, bod yn rhaid i unigolion gydnabod y broblem cyn y gellid gwneud unrhyw gynnydd.

2.11 Gofynnodd Julia Richardson o Gymorth i Fenywod Castell-nedd am eglurhad ynglyn ? gweithrediad y gronfa ddata newydd sy’n cofnodi plant sy’n agored i niwed a gofynnodd a oedd sefydliadau gwirfoddol yn cael mynediad i’r gronfa ddata. Eglurodd Brian Gibbons AC sut yr oedd yn gweithio a dywedodd na fyddai sefydliadau gwirfoddol yn cael mynediad ato yn y tymor byr. Mae pedwar lle yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu dewis i dreialu’r gronfa ddata ac roedd Port Talbot wedi cael ei ddynodi’n addas.

2.12 Yr oedd Eleanor o Gymorth i Fenywod Castell-nedd, sy’n gweithio’n agos gyda swyddog lles mewn ysgol ym Mhort Talbot, eisiau gwybod pwy sy’n gyfrifol am ddiweddaru’r gronfa ddata. Gofynnodd y Cadeirydd i Brian Gibbons AC ysgrifennu at Eleanor gan ei fod yn fater a oedd yn gofyn am fanylion.

2. 13 Yr oedd Barry Owen yn bryderus am yr achosion o gam-drin ariannol a geiriol sydd ddim yn fathau o gam-drin domestig y gellir eu gweld a sut mae profi achosion o’r fath. Awgrymodd eu bod yn achosion mwy addas i Relate ddelio ?hw. Dywedodd Jon Trew bod ei sefydliad ef yn derbyn gair y dioddefwr a’u bod yn cynnig cefnogaeth. Gall y math yma o gam-drin fod yn fwy bychanol a niweidiol na cham-drin treisgar.

2.14 Dywedodd Roger Knight o Brifysgol y Drydedd Oes a Mr Ivor Rees eu bod yn bryderus ynglyn ?146;r s? bydd pwyllgorau rhanbarthol yn dod i ben gyda hyn. Dywedodd y Cadeirydd nad yw dyfodol y pwyllgorau rhanbarthol wedi cael ei benderfynu.

## Eitem 3: Cofnodion

3.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin.

## Camau Gweithredu:

Bydd cofnodion y cyfarfod yn cael eu hanfon at Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

Bydd Brain Gibbons AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ysgrifennu at Eleanor o Gymorth i Fenywod Castell-nedd ynglyn ?146;r gronfa ddata i blant sy’n agored i niwed.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Dywedodd y Cadeirydd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 2 Mawrth 2006 ym Mhorthcawl. Mae Pobl Ifanc a Dinasyddiaeth neu gynnal iechyd, lles ac annibyniaeth pobl hyn yn rhai o’r testunau sydd wedi cael eu hawgrymu ond gall yr Aelodau gynnig pynciau eraill trwy’r Clerc.

Diolchodd y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor i staff Canolfan Dylan Thomas.

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Hydref 2006